Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

Bwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg
Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

Parthed: *CVSB CPR05/2019*

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma: -

- *Y cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau ar yr adolygiad dan sylw*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser sy'n destun yr adolygiad a phaham*
- *Amserlen gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar 22 Chwefror 2020 ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant ac Oedolion yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (rhifyn 2)'. Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn dan adran 3.4 o'r canllawiau uchod a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

Y meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer plant/oedolion yw bod y plentyn / oedolyn:

- wedi marw, neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi cael nam difrifol neu barhaol sy'n effeithio ar ei iechyd neu ddatblygiad

Yn unol â'r canllawiau, cafodd y meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno eu bodloni, wrth i Toby gael ei ddarganfod wedi'i lofruddio ar 28 Awst 2019. Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

Yn ystod mis Awst 2019, cafodd corff Toby ei ddarganfod mewn Uned Ddiwydiannol ym Mro Morgannwg. Roedd wedi cael ei drywanu'n angheuol. Cafwyd pedwar unigolyn yn euog o lofruddiaeth maes o law, a chafwyd tri unigolyn yn euog o ddynladdiad.

Roedd Toby yn 17 mlwydd oed adeg ei farwolaeth, yn ystod y misoedd blaenorol bu nifer o ddigwyddiadau a barodd bryder gan gynnwys bygythiadau treisgar sylweddol i Toby a'i deulu, roedd un digwyddiad yn cynnwys gweld arf tanio. Ar o leiaf ddau achlysur mynychodd Toby

yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gydag anafiadau sylweddol y datgelodd iddo eu dioddef yn ystod ymosodiadau. Roedd asiantaethau'n amau bod Toby yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau a gweithgaredd troseddol megis bod yn rhan o ymddygiad bygythiol gydag arfau. Roedd gwybodaeth hefyd wedi'i rhoi i'r Gwasanaethau Plant bod Toby yn ymwneud â dosbarthu cyffuriau drwy gyfrwng Llinellau Cyffuriau.

Yn ogystal, cofnodir, er gwaethaf ymdrechion i ymgysylltu â Toby gadawodd addysg prif ffrwd cyn oedran gadael ysgol statudol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir gan asiantaethau unigol yn tynnu sylw at bryderon diogelu, gan gynnwys cyfranogiad a'r risg barhaus o Gamfanteisio'n Droseddol ar Blant (CTB). Mae'n ymddangos nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n ddigonol rhwng asiantaethau unigol.

Cynhaliwyd trafodaethau strategaeth cychwynnol (yn dilyn sgôr COG coch gan Gwasanaethau Plant), ond ni wnaethant nodi bod Toby mewn perygl o niwed sylweddol a chytunwyd y dylid cynnal asesiad llesiant. Cafodd y penderfyniad hwn ei adolygu gan un asiantaeth heb ystyried hanes pryderon ac ni fanteisiwyd ar wybodaeth amlasiantaethol. O ganlyniad, ni nodwyd unrhyw anghenion gofal a chymorth.

Nid yw'n glir sut y daeth Toby yn rhan o ddosbarthu cyffuriau ac a gafodd ei fasnachu rhwng ardaloedd i gyflenwi cyffuriau. Beth bynnag am hyn, roedd Toby yn blentyn ac nid oedd y mesurau diogelu a oedd ar waith i'w amddiffyn yn ddigonol.

Allwedd:

MARF - Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol

Sgôr CMG – Weithiau mae achosion yn cael sgôr CMG (coch, melyn, gwyrdd) sy'n nodi lefelau pryder / risg.

CTaB - Camfanteisio Troseddol ar Blant

CRhB - Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

CDA – Cyfarfodydd Diogelu Amlasiantaethol

TADd - Tîm Amlddisgyblaethol.

Cymorth i Deuluoedd - Tîm Cymorth Cynnar Gwasanaethau Plant, sy'n darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n ceisio osgoi i deuluoedd aethygu i wasanaethau statudol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i sicrhau bod teuluoedd a phobl ifanc yn cael y cymorth cywir, ar yr adeg gywir ac ar y lefel gywir.

Diogelu Dy Hun - Tîm Camfanteisio y Gwasanaethau Plant sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol neu droseddol neu sy'n cael profiad o'r rhain.

Asesiad Lles - Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnig asesiad ar gyfer unrhyw blentyn pan ymddengys y gall fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth yn ychwanegol at y gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn neu yn lle'r gofal hwnnw.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi o'r achos hwn (gan gynnwys tynnu sylw at arfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol.

Diogelu yn ystod y Glasoed

Rhwng mis Hydref 2017 hyd at ei lofruddiaeth ar 28 Awst 2019, daeth Toby i sylw Heddlu De Cymru (HDC) ar ugain achlysur. Roedd rhai o'r cysylltiadau hyn yn ymwneud â Toby yn dioddef ymosodiadau a bygythiadau (yn cynnwys cyllyll a gynnau) a oedd yn ymddangos fel pe baent yn gwaethygu o ran dwyster a difrifoldeb. Roedd eraill yn ymwneud â chymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol yn ymwneud â chyffuriau, gangiau, cyllyll, ac fel teithiwr wrth ddwyn ceir. Nodwyd bod Toby hefyd efallai yn ymwneud â Llinellau Cyffuriau. Roedd hefyd wedi cael ei riportio fel person coll. Datgelodd ar fwy nag un achlysur ei fod yn defnyddio canabis a'i fod yn teimlo na allai adrodd bygythiadau/ ymosodiadau oherwydd ofn sgil-effeithiau. Dangosodd gwybodaeth fod yr unigolion yr oedd Toby yn cysylltu â nhw wedi bod yn ymwneud yn helaeth â gweithgarwch troseddol ers peth amser. Dwedodd rhieni Toby eu bod wedi cael eu bygwth â gwn gan unigolyn a oedd yn fygythiad i Toby, yn ogystal â bod ganddynt eu pryderon eu hunain yn ymwneud â newid yn ei ymddygiad a'r hyn yr oedd o bosibl yn cymryd rhan ynddo. Bum niwrnod cyn ei lofruddiaeth roedd bygythiad i'w deulu y byddai eu tŷ yn cael ei losgi pe na bai lleoliad Toby yn cael ei ddatgelu.

Gallai Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (HDC) a ddefnyddir i rannu gwybodaeth sydd gan yr Heddlu gyda sefydliadau eraill fod wedi'u cwblhau ar 12 achlysur yn achos Toby a'i ymwneud â Heddlu De Cymru. Cwblhawyd HDCau ar 4 achlysur, ond dim ond ar ddau achlysur y rhannwyd yr HDCau ag asiantaethau eraill. Yr unig gasgliad y gallai'r adolygwyr ddod iddo oedd ei bod yn ymddangos nad oedd y niwed yr oedd Toby yn agored iddynt wedi eu hadnabod gan nad oedd yn oedolyn eto.

Ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd yr Heddlu HDC i'r Gwasanaethau Plant ynghylch ffrae barhaus gydag unigolyn arall a bygythiadau i Toby gan gynnwys fideo o'i ffôn yn cael ei chwalu. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn cafodd Toby ei roi ar Orchymyn Atgyfeirio Ieuenctid yn ddiweddarach, unwaith eto ni chydnabuwyd ei fod yn agored i niwed.

Rhwng 18 Mawrth hyd at 28 Awst 2019, derbyniodd y Gwasanaethau Plant wybodaeth gan yr Heddlu, rhieni Toby a thrydydd parti bod Toby yn ymwneud â defnyddio a chyflenwi cyffuriau, Llinellau Cyffuriau, yn deithiwr mewn ceir wedi eu dwyn a gyrru'n anghyfreithlon. Cydnabuwyd bod Toby yn ymwneud ag arfau a bod ei deulu wedi cael eu bygwth ag arf tanio. Er gwaethaf hyn, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynnydd wedi bod i ystyried pryderon amlasiantaethol neu hanesyddol a allai fod wedi dangos bod Toby mewn perygl o niwed sylweddol.

Rhannu Gwybodaeth ac Ymyrraeth Gynnar

Mae'r adolygiad wedi nodi bod cyfleoedd wedi'u colli i bob asiantaeth rannu gwybodaeth drwy gydol y broses. Ym mis Hydref 2017, bu'r Heddlu yn rhan o'r ymgyrch ar ôl i griw o fechgyn ymosod ar Toby a'i adawodd gydag anafiadau sylweddol gan gynnwys torri asgwrn yr wyneb. Bryd hynny rhannodd Toby hefyd ei fod wedi cael ei fygwth â chyllell wythnos ynghynt, fodd bynnag, ni chyflwynwyd HDC gan yr Heddlu ac ni wnaed Ffurflen Atgyfeirio Amlasiataeth gan yr adran Iechyd.

Cyn hyn ym mis Medi 2017, yn dilyn ymweliad Toby â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, cyflwynwyd Ffurflen Atgyfeiro Amlasiantaeth gan yr adran Iechyd yn nodi pryderon diogelu perthnasol, gan gynnwys y posibilrwydd bod Toby yn delio cyffuriau. Nid oes gan y Gwasanaethau Plant unrhyw gofnod o dderbyn y Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth hon. Hysbyswyd meddyg teulu a nyrs ysgol Toby a cheisiodd nyrs yr ysgol gysylltu â Toby.

Ym mis Rhagfyr 2017, cofnododd Addysg nad oedd Toby wedi mynychu hyfforddiant am 4 wythnos. Anfonwyd llythyr at ei rieni, ond ni chymerwyd camau dilynol.

Ym mis Ebrill 2019, roedd y teulu wedi symud tŷ mewn ymdrech i leihau'r risgiau o drais a bygythiadau iddyn nhw eu hunain a'u cartref.

Ym mis Mai 2019, cyfarfu Toby a'i rieni â gweithiwr cymorth Cymorth i Deuluoedd. Ar yr adeg hon y dwedodd rhieni Toby eu bod yn eithriadol o bryderus am ddiogelwch eu plant (Toby a'i frawd/chwaer) ac iddynt gael sioc pan gawsant wybod bod gwybodaeth wedi dod i law y gallai Toby fod yn rhan o Linellau Cyffuriau. Roedd pob parti'n derbyn bod Toby wedi dod yn berson ifanc dig dros y 12 mis diwethaf.

Ar y pwynt hwn, roedd lefel y cymorth a oedd yn cael ei gynnig i Toby ar sail wirfoddol ac mae ein cofnodion yn dangos i bawb yn y cyfarfod gytuno y gellid cau'r achos.

Mae recordiadau achos yn dangos bod asiantaethau unigol yn ymwybodol o nifer o ddigwyddiadau difrifol yr oedd Toby wedi bod yn rhan ohonynt. Ni chafodd y wybodaeth hon ei rhannu, neu cafodd ei rhannu'n annigonol neu ni chafodd digwyddiadau blaenorol eu cymharu na'u hystyried. Ymddengys nad oedd y cynnydd mewn ymddygiad troseddol, cysylltiadau hysbys ag eraill sy'n ymwneud â throseddu, bygythiadau i Toby a'i deulu, a'r posibilrwydd o gamfanteisio yn cael eu hystyried yn gyfannol ar hyn o bryd.

Diffyg cysylltiad ag Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant

Canlyniad cadarnhaol a ddaeth allan o'r adolygiad, oedd cyfraniad y Gweithiwr Ieuenctid ynghlwm wrth yr ysgol yr atgyfeiriwyd Toby ato'n gynharach tra yn yr ysgol uwchradd, a oedd yn ymddangos fel petai yn ddylanwad cadarnhaol. Fodd bynnag, ar ôl i'r cymorth hwnnw ddod i ben nid oedd cyfle i Toby gael ei atgyfeirio. Rhaid peidio â diystyru pwysigrwydd rôl y Gweithiwr Ieuenctid, maent wedi'u hyfforddi'n benodol ac yn fedrus i weithio gyda phobl ifanc, a gallent fod yr un gweithiwr proffesiynol allweddol ym mywyd yr unigolyn sy'n gallu datblygu perthynas gadarnhaol, adnabod pryderon ac ymgysylltu â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Adrodd am Bryderon

Dywedodd rhieni Toby nad oedden nhw'n gwybod ble i droi pan oedden nhw'n poeni am Toby. Yn y Digwyddiad Dysgu, cydnabuwyd bod angen i weithwyr proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd (teulu, ffrindiau, cymdeithion) fod yn ymwybodol o sut i adrodd am bryderon diogelu, a'r opsiwn i adrodd yn ddienw drwy Crime Stoppers neu sefydliadau cynghori eraill.

Yn ogystal, os yw gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth ac nad ydynt yn teimlo bod camau priodol wedi'u cymryd, mae angen iddynt allu herio penderfyniadau ac uwchgyfeirio eu pryderon pan fo angen. Yn ogystal, mae gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro bolisi uwchgyfeirio amlasiantaethol y gellir ei ddefnyddio i ddatrys anghydfodau proffesiynol.

Yn yr un modd, gall aelodau'r cyhoedd ddilyn gweithdrefnau cwyno asiantaethau unigol pe bai angen.

Ystyriaethau o Ran Diogelu Pobl Ifanc

Gall oedran chwarae rhan o ran a yw unigolyn yn cael ei ystyried o fod mewn perygl. Ar ôl 16 oed, gall fod tueddiad i beidio â gweld y plentyn pan fydd troseddoldeb ac ymddygiad cysylltiedig yn broblem.

Yn yr oedran hwn, mae mwy o angen am adeiladu cronoleg amlasiantaethol effeithiol gan gynnwys cysylltiadau a gwaethygu troseddoldeb a risg. Dylai hyn fod ochr yn ochr â chwilfrydedd proffesiynol a her broffesiynol briodol.

Dylid ystyried drwy'r broses asesu er mwyn sicrhau mynediad i'r cymorth priodol gan asiantaethau allweddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo rhieni/gofalwyr yn ceisio cymorth i'w plentyn ifanc. Dylai'r asesiad fod yn gyfannol ac ystyried cyfeirio at yr asiantaethau priodol.

Mae cydnabod rhieni a phlant fel 'arbenigwyr' yn eu bywydau eu hunain a gwrando ar eu lleisiau yn rhan annatod o reoli a lleihau risg.

Gwella Systemau ac Arfer

Er mwyn sicrhau y dysgir o'r achos hwn, mae'r adolygiad wedi adnabod y camau gweithredu canlynol i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'i asiantaethau partner, a'r canlyniadau gwella disgwyliedig:-

Gwelliannau Asiantaethau mewn Ymarfer

Mae'r holl ymarferwyr a fynychodd y Digwyddiad Dysgu wedi rhannu eu barn ar sut mae ymarfer wedi gwella o fewn eu hasiantaethau ers digwyddiad trasig llofruddiaeth Toby. Mae rhai camau eisoes wedi'u cymryd i wella ymarfer yn yr amser sydd wedi mynd heibio ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- **Cyflwyno / Sail Resymegol Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd**

Mae gwelliannau ar waith i sicrhau bod Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (HDC) yn cael eu cyflwyno a'u rhannu'n briodol. Mae bellach yn orfodol o fewn Heddlu De Cymru i HDC gael ei gyflwyno i unrhyw blentyn sy'n cael ei ddwyn i'r ddalfa, gan gynnwys y rhai sy'n cytuno i gyfweliadau gwirfoddol. Mae unrhyw berson ifanc (10-17 oed) sy'n mynd i'r ddalfa hefyd yn cael cynnig Gweithiwr Ieuenctid y Ddalfa. Os bydd person ifanc yn cael HDC risg uchel, bydd hynny'n sbarduno ymateb cyflym gan Wasanaethau Plant, asesiad MASH (Canolfan Diogelu Amlasiantaeth), a chynllun amlasiantaethol. Defnyddir baneri camfanteisio ar blant ar system Heddlu De Cymru i nodi pryderon a chyfeirio swyddogion at unigolion eraill sy'n gysylltiedig â pherson ifanc. Yn dilyn diwrnodau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gamfanteisio ar blant, mae mwy o ymwybyddiaeth bod angen cynnwys pob person ifanc sy'n gysylltiedig â digwyddiad ar HDC ac ystyried y gallai cyfranogiad mewn gweithgaredd troseddol fod yn ecsbloetio ffactorau risg ac felly'n bryder diogelu clir. Mae ailstrwythuro wedi digwydd yn Heddlu De Cymru i sicrhau ymateb cyson a chydlynus i Gamfanteisio Troseddol ar Blant (CTB) ledled ardal y llu gyda digon o gapasiti a gallu i ymchwilio iddo a'i stopio, ac i ddiogelu dioddefwyr.

Mae arestiadau pobl ifanc yn ardal Heddlu De Cymru bellach yn cael eu hadolygu gan staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) a fydd yn gofyn i swyddogion arestio gyflwyno HDC ar gyfer y rhai dan 18 oed, os nad yw un wedi'i gwblhau eisoes. Pan ddaw Heddlu De Cymru yn ymwybodol bod gwybodaeth am gysylltiadau pobl ifanc sy'n peri pryder, gofynnir am HDC a chaiff hyn ei rannu gyda MASH ar gyfer asesu, trafod a rhannu gwybodaeth. Gall staff Ymddiriedolaeth St Giles weld pobl ifanc sydd â chysylltiadau tybiedig â Llinellau Cyffuriau a throseddoldeb eraill tra byddant yn y ddalfa a chynigir cymorth iddynt.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) wedi datblygu ffordd gyson o gofnodi cysylltiadau â phlant a phobl ifanc, mae baneri ar eu system ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Atal ac mae'r broses Gorchymyn Atgyfeirio wedi newid. Bellach gellir cynnal ymweliadau â phlant a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r GCI mewn lleoliadau cymunedol mwy amrywiol i gynyddu hygyrchedd ac ymgysylltu.

Ers Mehefin 2021 mae Caerdydd wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot cenedlaethol lle mae proses gwneud penderfyniadau Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) wedi'i datganoli i'r Awdurdodau Lleol. Mae 10 awdurdod lleol yn cymryd rhan yn genedlaethol. Mae proses benderfynu MAC yn caniatáu i weithwyr proffesiynol adolygu tystiolaeth a gwybodaeth ac yna dod i gasgliad fel panel p'un a oes/oedd camfanteisio ar blentyn yn eu barn.

Mae'r panel gwneud penderfyniadau MAC yn cynnwys aelodau pleidleisio craidd sy'n cynnwys uwch staff o, Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Plant), Iechyd a'r Heddlu. Mae cynrychiolydd o'r gwasanaeth Gwarcheidwad Masnachu Plant Annibynnol (GMPA) hefyd yn ofynnol mewn paneli, ond nid oes ganddo alluoedd i wneud penderfyniadau. Yng Nghaerdydd gwahoddir y rheolwr achos gwaith cymdeithasol hefyd i gyflwyno'r achos a chyflwyno unrhyw dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ond nid yw'n ofynnol iddo wneud penderfyniadau ynghylch y MAC. Trwy adeiladu mecanweithiau lleol, mae ansawdd ac amseroldeb penderfyniadau wedi gwella, yn ogystal â gwelliannau a chysylltedd cynyddol rhwng mecanweithiau diogelu presennol a'r broses MAC.

- **Rhannu Gwybodaeth Rhwng Asiantaethau**

Ers 2016, bu Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) yng Nghaerdydd lle derbynnir pob Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol. Mae gwelliannua wedi'i gwneud a chynhelir cyfarfodydd camfanteisio ar blant nawr gan ddefnyddio model Dioddefwr, Troseddwr, Lleoliad, Thema (VOLT yw'r acronym Saesneg) ar gyfer pob math o gamfanteisio. Mae hynny'n fodd i weithwyr proffesiynol adnabod dioddefwyr a throseddwyr, a mapio a deall y cysylltiadau a'r mannau agored i gamfanteisio o fewn grwpiau.

Mae gwell gwybodaeth am gamfanteisio troseddol a disgwylir y bydd gweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth yn edrych ar hanes plentyn neu berson ifanc a chyd-destun digwyddiad. Pan fydd achosion yn cael eu huwchgyfeirio, mae disgwyl nawr y bydd cronoleg ddadansoddol yn cael ei llunio i wella dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r plentyn neu'r person ifanc a'u sefyllfa.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Awdurdod Lleol a phartneriaid Dinas Caerdydd wedi datblygu'r fframwaith SAFE neu DIOGEL (Diogelu'r Ifanc O GamfantEisio). Crëwyd a rhannu offeryn sgrinio gyda'r holl staff ochr yn ochr â llwybr atgyfeirio clir ar gyfer achosion unigol o gamfanteisio (cyfarfodydd strategaeth camfanteisio / paneli risg uchel / dadansoddiad mapio gyda'r heddlu).

Mewn cyd-destun ehangach, mae gwaith yn cael ei gwblhau o amgylch datblygu'r cwricwlwm mewn ysgolion, matrics hyfforddiant camfanteisio ar gyfer staff a phrotocol MISPER. Cynhelir grŵp partneriaeth SAFE sy'n canolbwyntio ar gamau bob mis gan dynnu sylw ac ymateb i themâu o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws ardal sydd wedyn yn adrodd i'r Bwrdd Adfer Plant a Phobl Ifanc.

- **Diffyg cysylltiad ag Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant**

Mae systemau diogelu newydd bellach ar waith sy'n caniatáu i bob gweithiwr proffesiynol cysylltiedig gyfathrebu pryderon. Mae'r rhain yn cael eu brysbennu gan arweinydd diogelu dynodedig a all aseinio tasgau ac yn sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu hamlygu a'u huwchgyfeirio'n gyflym. Bellach mae gan addysg 'Banel Dechrau Newydd' i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n symud rhwng ysgolion. Mae'r panel yn galluogi adnabod anghenion y plentyn neu'r person ifanc a rhoi strategaethau ar waith i'w gefnogi drwy'r broses drosglwyddo. Mae gan bob plentyn neu berson ifanc Gynllun Datblygu Unigol (CDU) sy'n cynnwys barn y plentyn neu'r person ifanc a'i riant / gofalwr. Mae 'Panel Mynediad Teg' (PMT) yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anawsterau ymddygiadol/emosiynol/cymdeithasol i symud i ddarpariaeth amgen. 'Mae Tîm o Amgylch yr Ysgol' bellach ar waith gyda chysylltiad i'r ysgol uwchradd ac ysgolion bwydo o'r Gwasanaethau Plant sydd ar gael i gefnogi.

- **Mynychu Adran Damweiniau ac Achosion Brys**

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol CaF Dîm Trais ac Atal sydd wedi'i leoli yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'n ymgysylltu â chleifion sydd wedi cael / yr amheuir eu bod wedi dioddef ymosodiad. Mae'r tîm bellach wedi cynyddu ei gylch gwaith i gynnwys plant a phobl ifanc, a gall staff atgyfeirio i'r tîm am gymorth ar unwaith a dilyn dioddefwyr ymosodiadau. Mae eu gwaith yn cynnwys adrodd i'r Heddlu, atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a gwaith ymyrraeth uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Gall y tîm hefyd atgyfeirio i asiantaethau allanol priodol ar gyfer gwaith atal ac amharu, gan gynnwys mynd i'r afael â chyfranogiad mewn gwahanol fathau o droseddau.

Mae cerdyn dogfen y glasoed nawr (Cerdyn Glas) yn cael ei ddefnyddio o fewn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys, sy'n annog staff sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer oedolion sy'n gweld pobl ifanc 16/17 oed lle mae cyffuriau / alcohol yn ffactor, i ddilyn y gweithdrefnau diogelu cywir. Ychwanegir baneri at system cofnodion electronig SRhC ar gyfer cam-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant (CRhB) a chamfanteisio troseddol ar blant (CTaB). Mae'r Cardiau Glas yn cael eu hadolygu yn y Cyfarfodydd Adolygu Diogelu Pobl Ifanc rheolaidd, pan asesir unrhyw wendidau ychwanegol ar y cyd â chofnodion electronig y person ifanc (PARIS) a gellir gwirio y cyflwynir Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaeth priodol.

Mae staff iechyd yn derbyn hyfforddiant ar Linellau Cyffuriau a chamfanteisio ar blant fel rhan o sesiynau astudio Lefel 2 a Lefel 3, gan gynnwys gwybodaeth am ddangosyddion camfaneisio ac mae hyn yn rhan o'r dull diogelu holistig. Mae staff iechyd wedi'u lleoli yn MASH ac yn mynychu'r holl gyfarfodydd amlasiantaethol perthnasol i ddarparu gwybodaeth, ac i ffurfio rhan o'r asesiad a'r cynllunio ar gyfer yr achosion hynny a drafodir.

- **Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion**

Mae gan y Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion nawr ddwy Nyrs Lles Emosiynol yn y swydd (Hydref 2021). Maent o gefndir nyrsio ysgol ac yn cefnogi plant a phobl ifanc nad ydynt mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r nyrsys yn codi unrhyw achosion o fynd i adran Damweiniau ac Achosion Brys a phryderon diogelu ar gyfer y disgyblion hynny mewn darpariaeth addysg

amgen ac yn cynnig cymorth dilynol. Mae'r tîm yn creu cysylltiadau â sefydliadau addysg amgen i sicrhau rhannu gwybodaeth effeithiol ar gyfer y plant hynny y mae pryderon amdanynt. Mae perthnasoedd gwaith yn cael eu datblygu gyda staff yn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Addysg a'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion i wella'r cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc.

Cam(au) Gweithredu a Argymhellir

1. **Diogelu yn ystod y Glasoed:**
   Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro i ddarparu digwyddiad adborth amlasiantaethol ar gyfer yr AYP hwn i ledaenu gwybodaeth ar gyfer y gweithlu ehangach.

   Bydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn datblygu'r matrics hyfforddi ymhellach i gynnwys hyfforddiant penodol ar bryderon diogelu sy'n codi yn ystod llencyndod.

   Rhaid i Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro sicrhau bod yr angen i ddiogelu pobl ifanc yn cael ei hyrwyddo a'i gryfhau. Mae angen cyngor a hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol ar sut mae person ifanc yn datblygu i ddeall risg a chanlyniadau.

2. **Rhannu Gwybodaeth ac Ymyrraeth Gynnar**
   Rhaid i'r Gwasanaethau Plant ystyried effaith camfanteisio ar frodyr a chwiorydd fel rhan o atgyfeirio ac asesu.

   Rhaid i Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro adolygu'r cymorth presennol sydd ar gael i bobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio, gan adeiladu ar Ddiogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio (Model SAFE yng Nghaerdydd). Rhaid hyrwyddo adnoddau, cyngor a gwasanaethau cymorth i'r cyhoedd yn ehangach.

3. **Diffyg cysylltiad ag Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant**
   Pan fo pryderon ynghylch person ifanc, mae'n hanfodol bod addysg bob amser yn rhan o'r ystyriaethau diogelu. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo person ifanc yn cael ei addysgu y tu allan i leoliadau ysgol prif ffrwd.

4. **Adrodd am Bryderon**
   Rhaid i bob asiantaeth sicrhau bod y atgyfeiriwr yn gofyn am ddiweddariad ar ôl cyfeirio person ifanc mewn perygl ac ystyried herio'n broffesiynol os nad yw'n yn cytuno â'r penderfyniadau a wneir.

5. **Ystyriaethau o Ran Diogelu Pobl Ifanc**

   Rhaid i bob asiantaeth, sy'n ymwneud â thrafodaethau a chyfarfodydd strategaeth sy'n ystyried pobl ifanc sydd yn wynebu perygl camfanteisio, ystyried unrhyw wybodaeth hanesyddol berthnasol, mapio cysylltiadau cymdeithasol ac ymddygiad pryderus sy'n gwaethygu a nodwyd, a gedwir gan eu hasiantaethau. Rhaid i'r map/hanes hwn gael ei ystyried ar y cyd gan yr holl asiantaethau dan sylw, er mwyn gwneud penderfyniadau a chynllunio.

Datganiad gan Adolygydd/wyr	
ADOLYGYDD 1	**ADOLYGYDD 2** ***(fel y bo'n briodol)***
Datganiad o annibyniaeth o'r achos *Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster*	**Datganiad o annibyniaeth o'r achos** *Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster*
Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:- • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl	Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:- • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl
Adolygydd 1 *(Llofnod)* **Enw** *(Priflythrennau)* Nicole Devonish **Dyddiad** 2 Tachwedd 2023	**Adolygydd 2** *(Llofnod)*  **Enw** *(Priflythrennau)* Louise Young **Dyddiad** 2 Tachwedd 2023

Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)	
Enw *(Priflythrennau)*	Melanie Roach
Dyddiad	2 Tachwedd 2023

Atodiad 1: Cylch gorchwyl

Y Broses Adolygu Arfer Plant

I gynnwys yn gryno yma:

- *Y broses a gaiff ei dilyn gan y Bwrdd Diogelu Oedolion a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fu'n bresennol*
- *Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, ceisiwyd eu barn ac fe'u cynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt*

Roedd y Panel Adolygu Ymarfer Plant yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, Addysg, Gwasanaethau Plant, Iechyd, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymddiriedolaeth St Giles. Mae'r llinell amser amlasiantaethol sydd ynghlwm yn ystyried cyfranogiad a digwyddiadau rhwng y cyfnod o 1 Awst 2017 i 28 Awst 2019. Fodd bynnag, mae rhywfaint o wybodaeth hanesyddol yn mynd yn ôl i 15 Awst 2012 wedi'i ystyried gan y panel. Oherwydd yr amser rhwng y digwyddiad, yr achos troseddol a'r adolygiad hwn, mae llawer o'r staff a oedd wedi ymwneud yn uniongyrchol â Toby a'i deulu wedi symud ymlaen.

Cynhaliwyd y Digwyddiad Dysgu yn rhithiwr ar 20 Ionawr 2022 oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd ar wasanaethau yn sgil pandemig Covid-19. Roedd y Digwyddiad Dysgu yn cynnwys ymarferwyr o'r holl wasanaethau uchod.

Gofynnodd rhieni Toby am ddefnyddio'r ffugenw hwn trwy gydol yr adroddiad.

Cysylltwyd â'r teulu cyn y digwyddiad dysgu i siarad â'r adolygwyr am eu profiadau o weithio gydag asiantaethau. Trafodwyd y sylwadau hyn gyda gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu. Cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda'r teulu cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae'r paragraff canlynol yn cynrychioli barn y teulu am Toby. Roedd Toby yn fab a brawd annwyl iawn, yn rhan annatod o'i deulu y mae ei golled yn parhau i gael ei theimlo'n ddifrifol. Roedd yn fab cariadus, yn 'hoff o chwarae triciau'. Er bod ei rieni'n cydnabod bod Toby wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd negyddol ac anghyfreithlon, maent hefyd yn amlygu ei fod am eu hamddiffyn rhag ôl-effeithiau i'r ffordd o fyw yr oedd yn rhan ohoni, ac er gwaethaf eu hymdrechion a'u cais am gefnogaeth a chymorth gan asiantaethau, nid oedd bob amser hawdd manteisio arno nac yn ddigonol. Nid yw rhieni Toby eisiau i deulu arall ddioddef colled plentyn yn y ffordd y maen nhw wedi'i golli.

☐Gwrthododd y teulu gymryd rhan

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro

Cylch Gorchwyl Adolygiad Ymarfer Plant (Cryno)

Parthed: AYP 05/2019

Cyflwyniad

Caiff adolygiad ymarfer plant cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol (BDRh) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1. Cynhelir adolygiad ymarfer plant cryno lle mae cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu os amheuir bod y plentyn:

- mae wedi marw; neu
- gael ei anafu'n gyson mewn ffordd a allai arwain at farwolaeth, neu
- wedi cael nam difrifol a pharhaol o ran iechyd neu ddatblygiad; **ac**

nad oedd y plentyn ar y gofrestr diogelu plant nac yn blentyn oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn

- dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod, neu'r
- dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod plentyn wedi cael nam difrifol a pharhaol o ran iechyd a datblygiad.

Cylch Gorchwyl

Cytunwyd ar y cylch gorchwyl isod ar gyfer yr adolygiad hwn:
Y cyfnod amser ar gyfer yr adolygiad fydd **26 Mawrth 2018 - 02 Mehefin 2019**
Bydd y gwasanaethau canlynol yn llunio amserlen o ddigwyddiadau arwyddocaol o ran eu gwaith â'r Plentyn, ar gyfer y cyfnod uchod.

- Heddlu De Cymru
- Iechyd
- Addysg
- Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd
- Gwasanaethau Cymdeithasol

Yna caiff amserlen gyfunol ei llunio.

Tasgau Craidd (adolygiad ymarfer cryno)

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a'r Bwrdd a enwir.

- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a gwasanaethau i'r unigolyn a'i deulu

- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- Gwahodd cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am gynnydd.

- Ystyried unrhyw archwiliadau neu waith cyfochrog o ran yr achos.

- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/wyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar adolygiadau cryno ac estynedig.

- Cytuno ar yr amserlen.

- Nodi'r asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad na chysylltwyd â nhw eisoes gan y Grŵp Adolygu Achosion, llunio amserlen a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu a roddwyd eisoes ar waith yn syth.

- Ystyried, cydnabod ac ymateb i effaith Camfanteisio Troseddol a gwendidau'r achos hwn yn benodol.

- Llunio amserlen gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau.

- Cynllunio gydag adolygydd/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, i gynnwys nodi pwy sy'n dod, a threfniadau i'w paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.

- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr drefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.

- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i gyflawni, yr ymdriniwyd â'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw wersi ychwanegol wedi'u nodi a'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Achosion a'r BDRh i'w hystyried a chytuno arnynt.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adroddiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol

- Ystyried a chytuno i unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Y *panel adolygu* i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.

- Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i anfon yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r asiantaethau perthnasol i roi sylw terfynol arnyn nhw cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan Grŵp Adolygu Achosion, gan gynnwys sut caiff gwelliannau i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu

- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

- Cytuno i'w ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am gyhoeddi'r sylwadau a'r ymatebion i gyfryngau sydd â diddordeb o ran yr adolygiad nes cwblhau'r broses.

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad y cafwyd y wybodaeth .....

Dyddiad anfon llythyr cydnabod i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion ……..

Dyddiad anfon i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol .....

Asiantaethau	Do	**Rhif**	**Rheswm**
AGGCC (CSSIW)	☐	☐	
Estyn	☐	☐	
AGIC (HIW)	☐	☐	
Arolygiaeth Ei Fawrhydi Cwnstablaeth	☐	☐	
Arolygiaeth Ei Fawrhydi y Gwasanaeth Prawf	☐	☐	